**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**TACHWEDD 27AIN 2024 AM 7:30YH**
**CYNHALIWYD YN LLANGERNYW**

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**
**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)
**1.2** Presennol: Einir Williams (EW), Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Sara Thomas (ST), John Harris (JH), Austin Roberts (AR) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)
**1.3** Ymddiheuriadau: Gwydion Jones (GJ), Euros Williams (EUW)

Croesawodd CR yn arbennig John Harris fel cynghorydd newydd gan obeithio y bydd yn hapus yn ein plith.

**2. DATGANIAD DIDDORDEB**
Dim datganiad.

**3. COFNODION HYDREF 30AIN 2024 I'W GWIRIO**
Cynigwyd yn gywir gan ST ac eiliwyd gan JR.

**4. MATERION YN CODI**
**4.1** Dywedodd DR ei bod wedi darllen ymateb Un Llais sef eitem 9.10 yn y cofnodion diwethaf oedd yn nodi bod 62% o seddi cynghorwyr heb eu herio a bod 16% yn wag. Mae yna nifer o ofynion wedi eu mabwysiadu gan y Cyngor Sir a bydd dim gobaith denu eraill fel hyn. Ategodd AR hyn drwy ddweud bod mwy o bwysau ar gynghorau cymuned a thref erbyn hyn ac felly'n anoddach denu a chadw cynghorwyr.

**4.2** Cynigiodd MGD y dylid cychwyn hawlio T.A.W yn ôl ein hunain gan nad ydym dal wedi cael ad-daliad hanesyddol drwy'r cyfrifydd. Penderfynwyd i CWG gysylltu gyda chlerc cyngor cymuned Pentrefoelas i weld sut maen nhw yn ei wneud. Hefyd, roedd pawb yn cytuno i brynu'r meddalwedd '*Absolute Accounting'* os mai dyna sydd angen ei wneud.

**4.3** Gofynnodd AV os oedd unrhyw ddiweddariad o ran beth sy'n digwydd gyda'r siop fach ac atebodd AR ei fod yn dal i aros i glywed gan yr adran rheolaeth adeiladu.

**4.4** Dywedodd AV fod y sesiwn cyntaf o ail gychwyn y Clwb Garddio wedi bod yn noson lwyddiannus iawn gyda 27 aelod o'r cyhoedd yn bresennol. Gofynnodd a ddylid codi cost mynediad o hyn allan? Dywedodd CR y byddai'n well peidio codi am rŵan ac roedd JR yn cytuno. Cadarnhaodd CWG y byddai'r Clwb Garddio yn digwydd ar yr ail nos Iau o bob mis o hyn allan ac felly byddai'r nesaf ar Ragfyr 12fed. Mae Mr Dave Rimmer wedi cytuno i fod yn siaradwr gwadd gan siarad am 'Wneud a defnyddio compost organig'. Cytunodd JR a DR i wneud y baned eto y tro nesaf a dywedodd AV y byddai'n sortio'r raffl.

**4.5** Rhoddodd EW ddiweddariad ynglŷn â chlirio llwybr troed. Bu i John Kevin ac Euros ei glirio cyn i Aled Hughes fod yn ei gerdded. Mae yna waith mawr i wneud arno eto ond roedd pawb yn ddiolchgar iawn iddynt am ei glirio.

**5. CEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1** Cais Rhif 0/52073 Cwm Ucha, Gwytherin LL22 8YF

Roedd y cynghorwyr yn bryderus ynglŷn â'i ddefnydd terfynol ac os yw ar gyfer defnydd preifat yn unig.

**6. MATERION CYNGOR**

**6.1** Dyddiadau Cyfarfodydd 2025 - pawb yn cymeradwyo.

**6.2** Model Rheolau Ariannol – wedi eu trafod cyn y pwyllgor ond mae dal waith ar ôl cyn y gellir eu cymeradwyo. Penderfynwyd i edrych arnynt eto cyn y pwyllgor nesaf.

**6.3** Cysylltedd Digidol Gwledig - Dywedodd AR fod Menter Môn yn cynnal sesiynau i wneud a hyn a bod croeso i'r cyhoedd i gysylltu â hwy.

**7. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

**7.1** T.C.C – Roedd Gwenda Vaughan wedi cysylltu yn dweud bod fandaliaeth wedi cymryd lle a bod Pwyllgor y Ganolfan wedi trafod cael T.C.C. Mae AR wedi siarad gyda phennaeth yr adran addysg sydd wedyn wedi ei gyfeirio at adran rheoleiddio'r Cyngor Sir. Dywedasant ei fod yn bosib ei osod ond y byddai'n rhaid ymgynghori gyda'r heddlu. Hefyd, buasent yn gallu rhoi rhywfaint o arian tuag at y gost. Mae AR am gael gair pellach gyda Gwenda Vaughan ac mae'n ymddangos nad oes problem gan yr ysgol gyda gosod y T.C.C.

**7.2** Mieri yn Glan Collen - mae'r Cyngor Sir wedi dweud eu bod am ei dorri. Os fyddent heb ei wneud yn fuan, mi wnaiff AR ei dorri ei hun.

**7.3** DR wedi cysylltu ynglŷn â thwll yn y ffordd yn Llanfair Tal Haiarn ac mae bellach wedi ei atgyweirio. Dywedodd ei bod yn bosib cysylltu'n uniongyrchol gydag ERF ar yr ap '*Report it*' i adrodd am sefyllfa o'r fath.

**7.4** Pontydd – Mae AR wedi tynnu llun o bont Gwytherin a'i yrru i ERF. Wythnos ynghynt roedd wedi tynnu llun o bont Pandy Tudur hefyd. Nid yw'r Prif beiriannydd wedi bod allan i weld hwnnw ac efallai nad yw'n sylweddoli pa mor ddrwg ydyw. Dywedodd nad yw'r niwed i bont Llangernyw mor ddifrifol ac felly ni fydd yn gallu cael ei atgyweirio am rŵan.

**7.5** Dip yn y ffordd wrth ymyl Gell - mae AR wedi siarad gyda Dilwyn Roberts a ddywedodd bod gwaith wedi digwydd ar y darn yma o'r ffordd yn y gorffennol. Mae'r cyngor yn meddwl bod draen o danodd wedi disgyn a phan fydd arian ar gael mi gaiff ei atgyweirio.

**7.6** Ffordd Fain i mewn am Bandy – wedi ei atgyweirio ar ôl i Emyr roi cais i mewn am grant i atgyweirio cilffyrdd a oedd yn llwyddiannus. Hefyd, mae pibellau wedi eu gosod hefyd felly mae'r broblem dwr wedi ei datrys.

**7.7** Tir tu cefn i'r ysgol – mae AR wedi cael ymateb gan yr adran ystadau. Yr unig adran sydd gyda diddordeb mewn gwneud rhywbeth gydag ef yw'r adran dai, ond dywedodd AR fod angen edrych i mewn i bethau eraill. Byddai'n rhaid iddynt wneud ymgynghoriad yn lleol ynglŷn â dyfodol y darn o dir. Dywedodd DR bod gwaith papur cyfreithiol ynglŷn â'r berchnogaeth wedi dod i'r golwg. Nid ydynt yn ei meddiant hi ond gan rywun arall ac mae wedi gofyn am gopi. Gofynnodd AR am gael gweld y papurau hefyd.

**7.8** MUGA - AR wedi bod yn trafod gyda'r adran addysg ynglŷn ag ef. Yr adran wedi cytuno i helpu i weld be ellir ei wneud. Fe wnaeth grŵp bach gyfarfod yn ystod y mis gyda CR yn cynrychioli'r cyngor cymuned. Mae'r Adran Addysg yn fodlon gwneud archwiliad ohono i weld pa waith sydd angen ei wneud arno heb godi cost ar hyn i neb. Mae AR wedi cael dyddiad posib o 9.12.24 i wneud yr archwiliad. Yna, gellir penderfynu sut i symud ymlaen ac ariannu.

**7.9** Pot blodyn – Mae AR angen dyddiad y digwyddiad gan DR ac yswiriant y contractwyr fydd yn talu. Roedd AR yn awgrymu peidio rhoi pot blodyn wrth ymyl gwair ond atebodd JR fod y gwair wedi ei adael i dyfu mor hir gan nad oedd wedi ei dorri a dyna pam na wnaethant ei weld. Ategodd DR hyn drwy ddweud fod y potyn blodyn yno ers 20 mlynedd.

**7.10** Goryrru yn Glan Collen – mae wedi bod yn cael ei fonitro gyda laser am wythnos. Uchafswm y gyrru oedd 15 m.y.a. a'r isafswm oedd 11 m.y.a. Mae hyn yn gyflymder uchel ar stad ond nid yw'n torri'r gyfraith. Dywedodd JR mai'r broblem yw'r ceir ym mhob man yn hytrach na'r cyflymder. Dywedodd AR fod pryder am weddill Glan Collen hefyd a'i fod wedi gofyn am gael rhoi monitor yno'r wythnos nesaf. Nid yw AR yn gweld y cyngor yn ariannu twmpathau cyflymder. Gofynnodd DR os gall y peiriant gyfri faint o geir sydd yn ei groesi? Dywedodd AR y byddai'n gofyn a yw hyn yn bosib.

**7.11** Palmant wrth ymyl yr Eglwys yn Llangernyw - mae AR ac Emyr am fynd i'w weld oherwydd y digwyddiad y mis diwethaf. Dywedodd JR fod plant yn cerdded at y bws y ffordd yma ac yn cysgodi yn y porth pan mae'n bwrw.

**7.12** Mae AR wedi cysylltu gyda Claire Hughes yr Aelod Seneddol newydd ynglŷn â'r swyddfa Bost ond heb gael ymateb eto ac mae am fynd ar ôl hyn.

**7.13** Mae'r cais cynlluniau ar gyfer y melinau gwynt ym Mhen y Bryn, Trofarth wedi mynd i apêl. Mae'r adran gynllunio am ei wrthwynebu a bydd AR hefyd.

Gofynnodd DR os yw AR yn mynd o gwmpas gydag Emyr yna ydi'n bosib edrych i weld ble sydd angen paent ffordd wen yma ac acw e.e. wrth ddod i ffordd fawr. Mae yna nifer wedi gwisgo ac angen eu hadnewyddu. Hefyd, gofynnodd os ydych wedi cael caniatâd cynllunio ar eich lle, ydych chi'n cael ei addasu wedyn? Dywedodd AR fod angen trafodaeth ac mae'r adran fel arfer yn dweud wrthych nad oes angen rhoi cais arall i mewn.

Dywedodd JR bod aelod o'r cyhoedd wedi tynnu sylw ble maent wedi tynnu hen dafarn y bont i lawr yn Llangernyw eu bod wedi ehangu dros y llwybr troed gwreiddiol. Dywedodd AR ei fod yn llwybr cyhoeddus ac nid oes dim amharu i fod ar ei ddefnydd. Penderfynwyd i CWG ddarganfod rhif y llwybr cyhoeddus o fap sydd ganddi a'i basio i AR.

Dywedodd EW fod y broblem wrth giât ffordd Ty'n Bryn fod pwll yn cael ei greu ar y ffordd fawr adeg llifogydd yn parhau. Dywedodd ei fod yn beryglus os yw pobl yn dod lawr yr allt iddo a bod y dŵr wedi golchi cerrig eu giât ffordd i ffwrdd eto a bod ganddi luniau a fideos yn dangos y difrod. Atebodd AR y byddai'n ffonio i adael i EW wybod pryd mae ef ag Emyr yn yr ardal ac y gellir cwrdd EW i ddangos ac egluro beth sy'n digwydd.

Dywedodd JH fod y palmant yn gul wrth ymyl yr Eglwys a bod ceir yn parcio yno sy'n golygu fod yn rhaid i bramiau fynd i mewn i'r ffordd. Atebodd AR y gellir rhoi llinellau melyn dim parcio i mewn ond mae'n golygu cost a byddai'n rhaid mynd drwy'r llysoedd. Hefyd, mae'n aml iawn yn gwneud pobl yn flin ac mae'n anodd ei blismona. Ychwanegodd AV fod y porth yn rhestredig felly nid oes llawer y gellid ei wneud.

Tynnodd ST sylw at y ffaith fod pwll o ddŵr yn dal i gasglu ym Mhandy Tudur wrth ymyl Ty'n Ffynnon sy'n golygu nad yw ceir isel yn gallu pasio'r ffordd honno yn ystod cyfnod o law.

**8. MATERION ARIANNOL**
**8.1** Apêl Cynghorau Cymuned 2024 gan yr Ambiwlans Awyr - penderfynwyd i beidio cyfrannu.
**8.2** Apêl Cronfa Cyfle i Bawb 2024-25 yr Urdd - penderfynwyd i beidio cyfrannu.

**9. GOHEBIAETH**
Wedi ei anfon ymlaen i bawb er gwybodaeth:
**9.1** Cyllid o £1.5 miliwn ar gyfer Hybiau Diogel a Chynnes ledled Cymru gan Un Llais (hefyd wedi anfon hwn ymlaen i Gwenda Cooper)
**9.2** Gwybodaeth am Rwydwaith Natur Pethau Bychain gan Un Llais Cymru
**9.3** Gwybodaeth gan Darren Millar yn dilyn ei gyfarfod gyda'r Swyddfa Bost
**9.4** Ymgynghoriad newydd: Y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymu) (Cymru) gan Un Llais
**9.5** E-bost gan Darren Millar gydag ymateb Cyngor Conwy i amseru Adroddiadau Ariannol Ysgolion yn dilyn y pwyllgor diwethaf.
**9.6** Dyddiadau Hyfforddiant Un Llais Cymru ar gyfer mis Tachwedd a Rhagfyr
**9.7** Manylion am weminar gan Un Llais ynglŷn â'r argyfwng costau byw
**9.8** Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Ymgynghoriad ar Adroddiad Blynyddol drafft 2025 gan Un Llais
**9.9** E-bost gan Darren Millar gydag ymateb *Go Safe* yn dilyn y pwyllgor diwethaf.
**9.10** Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - digwyddiad ar lein i ddathlu 5 mlynedd
**9.11**Adroddiad Cynhadledd Genedlaethol 2024
**9.12** Gwybodaeth i gynghorau tref a chymuned cyn gosod praesept 2025/26
**9.13** Cyhoeddi papurau ymgynghori - Cydnerthedd cynllunio a chadw coed
**9.14** Hyfforddiant i Gynghorwyr gan Un Llais
**9.15** Dyddiadau Hyfforddiant Un Llais ar gyfer Tachwedd 2024 - Mawrth 2025 - efallai JH i wneud rhai, am gysylltu gyda CWG
**9.16** Ymateb Un Llais Cymru i Ymchwiliad y Senedd i Gynghorau Cymuned a Thref

Wedi ei anfon ymlaen i DR er gwybodaeth:
**9.17** Cyfarfod Pwyllgor Ardal Conwy a Sir Ddinbych am 7.00yh Dydd Mercher 27 Tachwedd o Un Llais - CWG wedi ymddiheuro na all neb fod yn bresennol gan ei fod yr un noson a'r cyfarfod Cyngor Cymuned.

**10. BILIAU**
**10.1** Bil gan Un Llais am hyfforddiant ar Gyfer Cynghorwyr Newydd - £40
**10.2** Bil Cyfieithu Enlli - £95
**10.3** Bil am flodau gan DR - £39.88

Cytunodd pawb i dalu'r uchod i gyd.

**11. MATERION LLEOL**

**DR** Gofynnodd os yw'n bosib gwneud y lle parcio i'r anabl wrth ymyl y Ganolfan yn fwy amlwg? Roedd aelod o'r cyhoedd wedi ceisio mynychu Merched y Wawr ond roedd y giatiau mawr wedi cau. Roedd fan wedi parcio yn y safle anabl ac ni fyddai wedi gallu cerdded i lawr o'r maes parcio mawr felly fe aeth adref heb fynychu Merched y Wawr. Dywedodd CR y dylai fod y giatiau ar agor a bod hyn wedi digwydd ambell waith ac yn cael ei ymdrin ag ef. Hefyd, dywedodd DR bod graffiti gwyn ar gerrig glas y cysgodfa bws wrth y siop. Mae am drio ei lanhau ei hun yfory. Os na ddaw oddi-yno bydd yn cysylltu gyda CWG er mwyn cael rhywun yno i'w lanhau.

**JR** Dywedodd fod y biniau bagiau baw cŵn yn Llangernyw yn wag a penderfynwyd y dylai CWG archebu rhai newydd.

**AV** Dywedodd yn dilyn araith Darren Millar ble y dywedodd y dylid adrodd am unrhyw ddamwain ei bod wedi gwneud hynny yn dilyn car oedd wedi troi drosodd i fyny am Wern Bach. Roedd Janet yn y siop wedi cael damwain hefyd ac mae wedi cysylltu gydag ef i adrodd am hynny hefyd.

**12. CYFARFOD NESAF**

Rhagfyr 17fed 2024 yng Ngwytherin. – penderfynwyd ei newid o'r dyddiad gwreiddiol Rhagfyr 18fed fel nad yw yr un noson a'r yrfa chwist flynyddol.
Cyfarfod yn dod i ben am 09:05 .
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.